# John Jones [Steward] – Tŷ Mawr

Ganwyd John Jones, y Prif Stiward yn Llangefnina daeth i fyw i Dŷ Mawr, Llandygai. Roedd ganddo ddau fab ac un ferch. Bu farw ei fab Dennis ym 1919, ac yntau ond 28 oed, a bu farw ei ferch Ina yn ifanc hefyd. Daeth y mab arall, sef John, yn bensaer,yn gyntaf yn Llundain, ac wedyn yn Lincoln. Claddwyd yr holl deulu ym mynwent Llandygai ac mae eu henwau ar y plac sydd yn yr eglwys

Dyma lun o Dŷ Mawr, cyn i'r ffens haearn gael ei thynnu yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae un o'r bechgyn wedi darganfod bedd John Jones ym mynwent Llandygai.

Wrth ymyl carreg fedd John Jones, mae carreg fedd arall ar gyfer ei fab A D Jones a anafwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac hefyd ei nai. Bu farw'r ddau ym 1919.




Mae'r plac tu mewn i'r eglwys yn coffau'r ddau ohonynt ac yn cofnodi eu cartref, sef, Tŷ Mawr.